

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

## Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Hydref 2018

### [Full Council Meeting for the month of October 2018](#)

Rhoddir rhybudd y cynhelir Cyfarfod Llawn o'r Cyngor ar **Nos Lun, 15 Hydref 2018 yn Neuadd Pentref Carmel i gychwyn 7.30 yr hwyr** ac felly fe'ch gwysir chwi i fynychu.

Notice is hereby given that the next Monthly meeting of the Council will be held on **Monday, 15 October 2018 at Carmel Village Hall to commence 7:30 pm** and you are summoned to appear

Bydd y ceisiadau cynllunio ar gael i chwi am ugain munud cyn i'r cyfarfod gychwyn.  
Planning applications will be available to view twenty minutes before the start.

Amgaeaf y canlynol i chwi  
The following is enclosed -

- 1) Rhaglen Cyfarfod 15 Hydref 2018- [Agenda for the Council Meeting 15 October 2018](#)
- 2) Cofnodion drafft Cyngor Llawn 17 Medi 2018 - [Draft Minutes of the Council Meeting 17 September](#).
- 3) Cofnodion drafft Panel Trefniadau Gwaith Y Clerc a gynhaliwyd 20 Medi 2018 - [Draft Minutes of the Clerks Terms & Conditions of Employment Panel held 20 September 2018](#)
- 4) Cofnodion drafft Panel Ymgysylltu a gynhaliwyd 26 Medi 2018 - [Draft Minutes of the Consulting Panel held 26 September 2018](#)
- 5) Cofnodion drafft Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 4 Hydref 2018 - [Draft Minutes of the Finance Committee held 4 October 2018](#)
- 6) Cofnodion drafft Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a gynhelir 10 Hydref 2018 - [Draft Minutes of the Cemeteries & Property Committee to be held 10 Hydref 2018](#)

|                           |   |
|---------------------------|---|
| <b>Cyfarfod / Meeting</b> | <b>Cyngor Llawn – Full Council</b>                      |
| <b>Dyddiad / Date</b>     | <b>Nos Lun, 15 Hydref 2018 / Monday 15 October 2018</b> |
| <b>Amser/ Time</b>        | <b>7.30 yr hwyr / pm</b>                                |
| <b>Lleoliad/ Location</b> | <b>Neuadd Pentref Carmel Village Hall</b>               |

## **Rhaglen / Agenda**

*(noder y bydd Mr Huw Roberts yn bresennol i gyfieithu'r trafodaethau / note that Mr Huw Roberts will be in attendance to translate proceedings)*

- 1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome*
- 2 Ymddiheuriadau ac Absenoldeb Aelodau / *Apologies from Members*
- 3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen / *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda.*
- 4 Seddi Gwag / *Vacant Seats*
- 5 Panel Ymgysylltu gyda'r Gymuned / *Consulting With The Community Panel*  
Cadarnhau aelodaeth y Panel a'i statws / *Confirmation of membership & status*
- 6 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Cyngor Llawn a gynhaliwyd 17 Medi 2018 fel Rhai Cywir- *To Accept the Minutes of the Full Council meeting held 17 September 2018, as a true record .*
- 7 Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes*
  - a) **Delwedd Dyffryn Nantlle**  
Materion i'w codi i'r cyfarfod sydd i'w gynnal Dydd Mercher, 17 Hydref am 9.30 y bore yn Plas Silyn, Penygroes. Cyng. Hwyl Owen a Cyng. Helen Hughes sydd wedi eu enwebu i g=ynrychioli y Cyngor yn y cyfarfodydd blaenorol. *Matters to be raised in the meeting held Wednesday 17g October, 9.30 am at Plas Silyn , Penygroes*
  - b) **Cerrig Cofeb Capeli Bryn'rodyn a Brynrhos/ War Memorial Headstones Bryn'rodyn & Brynrhos Chapels**

Diweddariad ar y noson. Trafod llythyr wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned.

c) **Gwasanaeth Bysus 1F / Bus Service 1F**

Derbyniwyd yr ymateb ganlynol gan Uned Cludiant Cyngor Gwynedd.

*Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 28 Medi 2018 ynglyn a'r gwasanaeth 1F. Rydym yn falch o glywed fod y teithwyr yn hapus gyda'r cwmni newydd. Rwyf wedi anfon copi o'ch llythyr i'r gweithredwr i ystyried eich cais pan fydd yn edrych ar yr amserlen yn y dyfodol. Os oes gennych unrhyw geisiadau pellach i'w ystyried yna buaswn yn ddiolchgar pe baech yn eu hanfon ymlaen i mi yn ystod mis yma.*

ch) **Hen Ysgol Carmel / Carmel Old School**

Derbyniwyd yr ymteb ganlynol gan Swyddog Gorfodaeth Cyngor Gwynedd (Paula Evans)

- Yn cadarnhau nad oes cais cynllunio wedi ei dderbyn
- Y mater wedi dod i sylw'r Swyddog Gorfodaeth ers Chwefror, mae'r perchennog wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Uned Gorfodaeth am opsiynau yn ymwneud gyda'r adeilad. Ddim mewn seyllfa i rannu'r fath wybodaeth ond yn nodi fod y perchennog wedi cael ei wybyddu o'r polisiau lleol a chenedlaethol perthnasol ac wedi ei gynghori i gyflwyno cais am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio.
- Nid yw'r Uned Gorfodaeth mewn sefyllfa i fwrw ymlaen a chamau gorfodaeth ar hyn o bryd gan fod y perchennog mewn trafodaeth gyda'r Cyngor er mwyn ceisio datrasiad i'r sefyllfa
- Y rheswm nad oes camau gorfodaeth yn cael ei gymeryd yn erbyn y perchennog ar hyn o bryd yw oherwydd ei bod yn ymddangos ei bod yn bosib y gall y tor-ddatblygiad gael ei ddatrys drwy cyflwyno cais ol-weithredol ac i hwnnw gael ei asesu yng nghyd destun polisiau lleol a chenedlaethol perthnasol. Yn deallt rhwystredigaeth y gymuned am y tor-rheolaeth ac yn ymwybodol bod yr eiddo ar y farchnad, fodd bynnag, yn egluro y byddai ystyried unrhyw gamau gorfodaeth yn ddewis olaf gan y Cyngor Sir, yn enwedig pan ei fod yn ymddangos yn debygol y gall fod modd datrys y sefyllfa drwy cyflwyno cais cynllunio.

d) **Chwarel y Fron / Fron Quarry**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Dafydd Gareth Jones, Uwch Swyddog Mwynau a Gwastraff ar ran Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru

*Correspondence received from Dafydd Gareth Jones Senior Minerals and Waste Planning Officer on behalf of the North Wales Minerals and Waste Planning Service*

Cyfeiriaf at golofn Cyngorau Cymuned ardal Dyffryn Nantlle ym mhapur newydd Lleu ac yn benodol at argraffiad Mis Medi sydd yn amlygu materion yn ymwneud â chwarel Bryn Fferam, Y Fron. Yn gyntaf, cadarnhaf fod y gwasanaeth Cynllunio wedi ymateb i gais rhyddid gwybodaeth gan Mr Wilcox yn sgil ffeil Bryn Fferam a'r hawliau datblygu o dan Rhan 23B i Atodlen 2 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 i symud deunydd o ddyddodion gweithio mwynau. Mae Rhan 23B o'r gorchymyn yn cynnwys gweithdrefn arbennig sy'n rhoi caniatâd cynllunio tybiedig i symud deunydd o ddyddodion mwynau heb fod angen cyflwyno cais cynllunio ar yr amod fod cyfanswm arwynebedd y gwastraff mwynau'n mesur llai na 2 hectar, a bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion priodol a gyflwynwyd gyda rhybudd o'r bwriad i gychwyn gwaith. Dylid nodi felly nid yw telerau'r Gorchymyn yn golygu bod y Cyngor yn gwneud unrhyw benderfyniad cynllunio fel y cyfryw, gan mai y gorchymyn ei hun sy'n gyfystyr â'r caniatâd gyda'r manylion priodol yn amlinellu natur y datblygiad.

Mae cyfatebiaeth wedi'i gyfnwid gyda chymdogion Y Fron ynglyn â gweithgareddau'r chwarel ond ni thrafodwyd cyflwr y llwybr gyda Mr Wilcox yn sgil fy nghyfrifoldebau i fel swyddog cynllunio Mwynau. Nid oes tystiolaeth fod y llwybr wedi'i ddifrodi o ganlyniad gweithredu'r hawl i symud gwastraff llechi ond dwi ar ddeallt fydd uned Hawliau Tramwy y Cyngor yn ymateb yn uniongyrchol i chwi ar y mater yma. Fodd bynnag, cadarnhaf fod safle Bryn Fferam ar restr monitro'r gwasanaeth Mwynau a Gwastraff ac ein bod yn ymateb i bob cynwys ac yn cysylltu â gweithredwr y chwarel pob amser i sicrhau rheolaeth cynllunio cymesur a rhesymol. Yn achos Bryn Fferam, nid wyf yn ymwybodol fod gweithredwr y safle wedi newid ers y cyflwynwyd y rhybudd nol yn 2004 a byddwn yn cysylltu â Wynnes Transport yn y dyfodol agos gydag anghenion moinitro'r gwasanaeth.

Fe gofrestrwyd y rhybudd o'r bwriad i gychwyn symud gwastraff llechi o'r domen nol ym mis Gorffennaf 2004 lle datganwyd fuasai cronfa 50,000 tunnell o lechi yn cymryd oddeutu saith mlynedd l'w symud, ar raddfa 2 llwyth 15 tunnell y dydd. Wedi asesu'r cyflwyniad Rhan 23B ac ystyried ôl troed (7,000m<sup>2</sup>), uchder a llethrau'r domen lechi, fe

gasglwyd fod 50,000 tunnelli o ddeunydd yn amcangyfrif rhesymol. Fodd bynnag mae tystiolaeth fod y domen lechi wedi cael ei weithio'n ysbeidiol ers sefydlu'r hawliau datblygu a ganiateir, lle cafwyd achosion o gynnydd mewn allbwn ond hefyd cyfnodau hir pan na chafodd y domen ei weithio o gwbl. Er fod y gwaith wedi parhau y tu hwnt i'r dyddiad diwedd disgwylidig yn 2011, roedd y cyfle i dynnu hawliau datblygu a ganiateir wedi pasio pan ddelwyd â'r rhybudd nôl yn 2004 ac ni ystyriwyd felly fod parhau i weithio'r domen yn tynnu'n groes i'r hawliau datblygu o dan Rhan 23B i Atodlen 2 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995.

**dd) Ffoes Brynrhos, Y Groeslon / Mbrynrhos Ditch, Y Groeslon**

Gohebiaeth Rheolwr y Cyngor Dydd Iau, 27 Medi 2018 gyda'r canlynol –

**Cyfoeth Naturiol Cymru** – sgwrs ffon Aled Derbynfa Caerdydd CNC – Eirian Redmayne Team Leader. Rhif ffon 0300 065 3750 ebost [flinen@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:flinen@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
CNC dim cyfrifoldeb am “secondary water course” dim ond cyfrifoldeb am prif afonydd.

**Cyngor Gwynedd - Malcolm Owens – Flood Risk Dept**

Ddim yn gyfrifol am y ffoes. Cyfrifoldeb yr Uned ydi darganfod pwy sydd berchen y tir. Anodd iawn cael y Crown Estate i weithredu, gan mai tir comin ydi hwn.  
Yn derbyn fod angen gwaith yng ngrfn Cae sarn. Diffyg arian. Rhaid i CG ddarganfod 15% o unrhyw gyllid grant.

**Cyngor Gwynedd – Steven Williams Adran Priffyrdd**

Ian Morgan ydi'r Peiriannydd Ardal Arfon.  
Ffoes hwn yn categori 2 – felly ddim yn waith brys. (Categori 1 yn cael sylw oddifewn 24 awr)  
Dim cyfrifoldeb statudol – gwaith a wneir gan CG yma ar ddisgresiwn.  
Wedi colli y Gang Cymunedol trwy toriadau. Wedi colli gweithwyr I gynnal y trunk roads dro dro. Yn cydnabod fod gwaith cynnal heolydd wedi Am ymweld y safle heddiw.  
Llythyr wedi ei anfon i CG i I sylw Ian Morgan, Peiriannydd Ardal Arfon gyda copi i Eric Jones a Sian Gwenllian.

**Cyng. Eric Jones**

Neb yn derbyn cyfrifoldeb am y wal sydd yn erydu gwaelod gerddi Cae Sarn. Wedi cyfarfod gyda perchnogion (Meirion a Gerwyn) Cae Sarn. Ar ddeallt fod y tirlfeddianwr gyda hanner y cyfrifoldeb

**e) Diffyg Safleoedd Parcio yn y Fron / Parking Area , Y Fron**

Diweddariad ar y noson.

***Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr Panel y Clerci gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym mharagraffau 11, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd y Rgeolwr Gweinyddol a Chyllid yn gadael y cyfarfod am yr eitem hwn***

- 8** Derbyn Cofnodion Panel Y Clerc a gynhaliwyd 20 Medi 2018 fel rhai cywir - ***To accept the minutes of the Clerks Conditions of Employment Panel , held on 20 September 2018, as a true record***
- 9** Materion yn Codi o'r Cofnodion – ***Matters Arising from the Minutes***
- 10** Derbyn Cofnodion Panel Y Clerc a gynhaliwyd 4 Hydref 2018 fel rhai cywir - ***To accept the minutes of the Clerks Conditions of Employment Panel , held on 4 October 2018, as a true record***
- 11** Materion yn Codi o'r Cofnodion – ***Matters Arising from the Minutes***
- 12** Derbyn Cofnodion Panel Ymgysylltu a gynhaliwyd 26 Medi 2018 fel rhai cywir - ***To accept the minutes of the Consultation Panel held on 26 September 2018, as a true record***
- 13** Materion yn Codi o'r Cofnodion – ***Matters Arising from the Minutes***

- 14 **Derbyn Cofnodion Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 4 Hydref 2018 fel rhai cywir - *To accept the minutes of the Finance Committee held on 4 October 2018, as a true record***
- 15 **Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes***
- 16 **Derbyn Cofnodion Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a gynhaliwyd 4 Hydref 2018 fel rhai cywir - *To accept the minutes of the Cemeteries & Property Committee held on 4 October 2018, as a true record***
- 17 **Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes***
- 18 **Materion yn codi gan Aelodau / *Matters Arising from Members***
- 19 **Cynhadledd Un Llais Cymru / *One Voice Wales Annual Conference***  
Adroddiad gan y Clerc ar y noson

## Gohebiaeth / **Communication**

### 20 **Cyngor Gwynedd / *Gwynedd Council*** **Biniau Halen – *Salt Bins***

Derbyniwyd lythyr gan Cyngor Gwynedd (Staffan Jones) yn gwahodd y Cyngor Cymuned i brynu'r gwasanaeth erbyn Gaeaf 2018-19 – cyfnod Hydref 2018 i Ebrill 2019. Costau.....

- £40 y bin am y llenwad cyntaf ar ddechrau'r Gaeaf / *£40 per bin for the first load at the salt of Winter*
- £60 y bin ar gais y gymuned yn ystod y Gaeaf rhwng 1 Hydref 2018 a 30 Ebrill 2019 / *£60 per bin at the request of the community during the Winter months being 1 October 2018 and 30 April 2019*

***GWEITHREDU – ystyried prynu'r gwasanaeth cyn cychwyn y Gaeaf***  
***ACTION REQUIRED – to consider buying the service before the coming of Winter***

### 21 **Yfed dan oed ac Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol yn Y Groeslon ar benwythnosau / *Unsocial Behaviour & Under Age Drinking at Groeslon during the weekends.***

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan aelod o'r gymuned

A fyddwch cystal ag ychwanegu y mater isod ar eich **Agenda** ar gyfer trafodaeth pellach yn eich cyfarfod llawn nesaf o Gyngor Cymuned Llandwrog ar **15 Hydref 2018**.

- Mae **nifer cynyddol** o bobl ifanc (15-17 oed) o bentrefi **Dyffryn Nantlle** a thu hwnt yn dod i gynnal partis ac yfed alcohol i'r caeau ger **Tyddyn Meinsier**, Lon Frondeg, Y Groeslon **LL54 7TU** **ar nos wener a nos sadwrn bellach**.
- Mae'r plant yn tueddu i gyrraedd y pentref ger ty tafarn Pen Nionyn tua **7pm** ac yna cerdded i fyny drwy'r pentref tuag at **Tyddyn Meinsier** gyda bageidiau o **alcohol** yn eu meddiant.
- Mae'r **llanast** maent yn ei adael yn **dorcalonus!!** gyda chanoedd o **ganiau, poteli gwydr, olion o ddelio gyda chyffuriau a gweithgareddau rhywiol** wedi eu taflu a'u malu ar hyd y llwybr cyhoeddus sy'n arwain o Tyddyn Meinsier tuag at hen eglwys St. Thmas (Cyfeirnod grid **480550**). **Atodaf luniau o'r llansast a gafodd ei adael ar y llwybr yn dilyn parti diweddar nos wener 21/09/18.**
- Rwyf wedi cysylltu gyda'r heddlu nifer o weithiau drost y 3 blynedd diwethaf ac wedi codi'r mater yn barod gyda chlerc y Cyngor (e-byst 30 Awst 2017) a'r Cynghorydd Mr Eric Jones (galwad ffon) er mwyn tynnu sylw at yr arferiad anffodus yma o **yfed dan oed ac ymddygiad gwrth gymdeithasol** wrth iddynt gerdded adref drwy'r pentref rhwng **10-11.30 yr hwyr**. Dwi'n gyrru neges testun i **PCSO Julie Holland a Sammy Williams yn rheolaidd** unwaith byddaf yn sylwi ar y plant yn dechrau ymgynull yn y pentref ond mae'r ymateb dwi'n ei gael ganddynt ac wrth ffonio llinell gymorth di-frys yr Heddlu 101 yn **anffeithiol iawn**.

- Yn **anffodus** mae'r sefyllfa wedi **gwaethygu yn ddiweddar** ac mae'r nifer o blant sy'n ymgasglu yno wedi **cynyddu'n sylweddol** (roedd tua 45 o blant yno nos wener 21/09/18)!!!
- Oherwydd **difrod troseddol** sydd wedi cael ei wneud i fy nghartref yn ddiweddar (**dymchwel wal derfyn, malu ffens a choed**), **trespasu, taflu biniau sbwriel i'r ardd ynghyd a'r ffaith fy mod yn gorfod gwranddo ar lu o sylwadau anwedus personol** sy'n cael ei dargedu tuag ataf ar benwythnosau 'rwyf wedi gorfod gosod **camera CCTV** er mwyn ceisio casglu tystiolaeth pellach o'r ymddygiad annerbyniol yma fel fy mod yn gallu ei drosglwyddo i'r heddlu er mwyn iddynt allu ymateb yn fwy effeithiol i'n problem. Fel aelodau o **Gyngor Cymuned Llandwrog** gofynnaf yn garedig i chi am eich help i geisio **datrys yr arferiad** anffodus yma.
- Dwi ddim yn siwr iawn beth allwch ei wneud fel Cyngor ond gwerthfawrogaf yn fawr os buasech yn gallu cynnal trafodaethau pellach neu lythyru'r **heddlu** a gofyn iddynt **gynyddu eu patrol** o ardal **Tyddyn Meinsier** ar nos wener/sadwrn?
- Oes modd i chi hefyd gael gair gyda **perchennog y tir** fel nad yw'n caniatáu i bobl ifanc yr ardal ymgynull i yfed dan oed ar **lwybr cyhoeddus**.
- Mae'n **sefyllfa drist iawn** pan fo pentref sydd wedi bod yn le mor braf i fyw ynddo drost y 18 blynedd diwethaf wedi troi yn gyrchfan **yfed dan oed** pobl ifanc Dyffryn Nantlle a'r cylch.

**GWEITHREDU – ystyried yr ohebiaeth, yr effaith ar drigolion y gymuned ac ymateb fel bo angen**

**ACTION REQUIRED – to consider the correspondence, the effects on members of the community and act accordingly**

## 22 Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft PACGA – Chwefror 2019 IRPW Draft Annual Report Consultation - February 2019

Mae Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2019/20 nawr wedi ei gyhoeddi, ac mae'r adroddiad ar gael ar wefan y Panel :

[Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2019](#)

Mae Adran 13 yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned yn benodol.

Byddai'r Panel yn ddiolchgar petasech yn gwneud eich aelodau'n hysbys o gynnwys yr adroddiad a gwneud unrhyw sylwadau sydd gennych ar y drafft i [IRPMailbox@gov.cymru](mailto:IRPMailbox@gov.cymru) erbyn **27 Tachwedd 2018**. Mae'n bosib ni roddir unrhyw ystyriaeth i sylwadau a derbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw.

The Independent Remuneration Panel draft Annual Report 2019/20 has now been published for consultation and is available on its website.

[Independent Remuneration Panel for Wales Draft Annual Report - February 2019](#)

Section 13 relates specifically to Community and Town Councils.

The Panel would be grateful if you could make your members aware of the contents report and make any comments you may have on the draft to [IRPMailbox@gov.wales](mailto:IRPMailbox@gov.wales) by **27 November 2018**.

Representations received after this date may not be considered.

**GWEITHREDU – ystyried yr ohebiaeth a chynnig sylwadau**

**ACTION REQUIRED – to consider the correspondence and to offer comments**

## 23 Cyngor Gwynedd – Arolwg Cyhoeddus Hydref 2018 Gwynedd Council – Public Survey October 2018

Cais i'r Cyngor Cymuned ymateb i'r holiadur, dyddiad cau 2 Tachwedd 2018.

**GWEITHREDU – ystyried ymateb a gwblhau yr holiadur**

**ACTION REQUIRED – consider the request and to take part in the exercise**



**24 Uned Polisi Cnllunio ar y Cyd – Gwynedd a Mon**  
**Joint Planning Policy Unit – Anglesea & Gwynedd**

Ymgynhori cyhoedus ar Llecynnau Agored Mewn Datblygiadau Tai Newydd a Tai Marchnad Lleol.  
 Public consultation supplementary planning guidance on Open Spaces in New Residential Development & Local Market Housing

**GWEITHREDU – ystyried yr ohebiaeth a chynnig sylwadau**  
**ACTION REQUIRED – consider the contents and offer comments**

**25 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications**  
**Ceisiadau Hydref 2018 - Applications for October 2018**

Cais Rhif / Application Number - **C18/0800/17/LL**  
 Cyfeiriad / Address - **Uwchlaw'r Rhos, Penygroes, LL54 7UE**  
 Bwriad / Proposal - **Codi estyniad cefn deulawr / [Erection of two storey rear extension](#)**

Cais Rhif / Application Number - **C18/0875/17/LL**  
 Cyfeiriad / Address - **Dinlle Caravan Park, Dinas Dinlle LL55 5TW**  
 Bwriad / Proposal - **Cais llawn i resymoli safle pwll nofio presennol trwy ddymchwel adeiladau presennol a chodi adeilad newydd i gynnwys toiledau, campfa, storfa ag ystafell offer a chodi estyniad i gynnwys adnoddau ychwanegol. [Full application to rationlise existing swimming pool site by demolishing existing buildings, construction of new buildings, to include new toilets, gym, store and plant room and a new extension to include additional facilities.](#)**

**Materion Ariannol / Financial Matters**

**26 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Medi 2018 – Income Received September 2018**

| Manylion / Details       | Cyfanswm  |
|--------------------------|-----------|
| Ffi Claddu / Burial Fees | (£315.00) |

**27 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

| Manylion / <a href="#">Details</a>  | Swm heb TAW<br>Amount excluding VAT | Cyfanswm y Taliad- Total Payment | Rhif Siec/ <a href="#">Cheque Number</a> |
|---|-------------------------------------|----------------------------------|--|
| Cyflog y Clerc – Hydref 2018 – <a href="#">Clerks Salary October 2018</a> |                                     |                                  | Uniongyrchol/ <a href="#">Direct</a>     |
| HMRC-Treth Incwm Hydref 2018– <a href="#">Income Tax October 2018</a>     |                                     |                                  | Uniongyrchol/ <a href="#">Direct</a>     |
| Lwfans Clerc– Hydref 2018– <a href="#">Clerks Allowance October 2018</a>  |                                     |                                  | Uniongyrchol/ <a href="#">Direct</a>     |
| Microsoft – Trwydded "Office" Licence                                     | £59.99                              | £59.99                           | 101837                                   |
| Huw Roberts – Cyfieuthu Mis Hydref / October translation x 3              | £162.00                             | £162.00                          | 101838                                   |
| Viking Direct – Offer Swyddfa / Office Equipment                          | £49.92                              | £59.90                           | 101839                                   |

**28 Dyddiadau Cyfarfodydd Nesaf / [Dates of Next Meetings](#)**

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Tachwedd / November Full council**  
Dyddiad / Date - Dydd Llun 19 Tachwedd 2018 / Monday [19 November 2018](#)  
Amser / Time - 7.30 yr hwyr  
Lleoliad / Venue Neuadd – Neuadd Y Groeslon Village Hall

Cyfarfod / Meeting – **Panel Ymgysylltu / Consulting Panel**  
Dyddiad / Date - Nos Fercher – 17 Hydref 2018 / 17 October  
Amser / Time - 7pm  
Lleoliad / Venue – Canolfan y Fron

**29 Materion i'w codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn (19 Tachwedd / [19 November 2018](#)) *Matters to be raised by members in the next meeting***

***Diwedd - end***